CYNGOR ▪ TREF
LLANDUDNO
TOWN ▪ COUNCIL

Neuadd y Dref ▪ Lloyd Street ▪ Llandudno ▪ Gogledd Cymru ▪ LL30 2UP
Town Hall ▪ Lloyd Street ▪ Llandudno ▪ North Wales ▪ LL30 2UP

☎ (01492) 879130 ▪ 🖷 (01492) 879130
www.llandudno.gov.uk ▪ ebost/email: towncouncil@llandudno.gov.uk

DATGANIAD I'R WASG
TÂN GWYLLT LLANDUDNO 2017

4ydd o Fedi 2017
I'w gyhoeddi yn syth

Mae Cyngor Tref Llandudno yn trefnu sioe tân gwyllt arbennig ar Draeth y Gogledd ar Dachwedd y 4ydd, 2017.

Dywedodd Cadeirydd yr is-bwyllgor Tân Gwyllt, y Cynghorydd Greg Robbins: *"**Ar ôl y siom o beidio â chael sioe tân gwyllt y llynedd, rydym wedi meddwl am syniad newydd ac am leoliad newydd ar gyfer y sioe eleni ond yn aros i gael Trwydded Forol gan Gyfoeth Naturiol Cymru cyn bod modd cadarnhau y bydd y sioe yn digwydd".***

Caiff y digwyddiad ei gynnal ar y cyd gyda Chwmni Pier Llandudno a chontractwr Tân Gwyllt arbenigol, ymysg llawer o rai eraill.

Os cawn ni'r drwydded sydd ei hangen, caiff y sioe tân gwyllt ei chynnal am 18:30 ar nos Sadwrn, 4ydd o Dachwedd, 2017 ar Draeth y Gogledd. Bydd modd gweld y tân gwyllt ar hyd y promenâd ac o'r Pier. Y dyddiad wrth gefn ydy nos Fawrth y 7fed o Dachwedd am 7 o'r gloch.

I wybod am unrhyw ddiweddariad ffoniwch 01492 879130 neu ewch i'r dudalen Facebook llandudnofireworks neu i'r wefan www.llandudno.gov.uk.

Tessa Wildermoth, MSc
Clerk a Swyddog Cyllid · Town Clerk & Financial Officer